Sut i sefydlu pwynt casglu Undeb Credyd yn eich ysgol

Yr ysgol yn mynd i siarad â'r Undeb Credyd.

(i gael hyd i'r un agosaf atoch chi ewch i www.walescoop.com neu ffoniwch 029 2055 4955)

Yr Undeb Credyd yn mynd i siarad â'r ysgol.

Aelod uwch o staff yr ysgol yn mynd i gwrdd ag un o staff yr undeb credyd, e.e. y Swyddog Datblygu Ysgolion neu Reolwr yr Undeb Credyd, yn dibynnu ar y trefniadau yn eich Undeb Credyd lleol. Gallen nhw drafod eu diddordeb a'u gallu i gefnogi'r syniad.

Gall yr ysgol weld wedyn a oes gan un o'r athrawon ddiddordeb bwrw ymlaen â'r syniad – e.e. athro Astudiaethau Busnes, Bagloriaeth Cymru, Mathemateg, ABCh neu bwnc arall efallai.

Yr athro a chynrychiolydd o'r Undeb Credyd yn trafod syniadau a faint o amser rhydd sydd ar gael ganddyn nhw i redeg a chefnogi'r project.

Gall gwersi a gweithgareddau 'Wela i di yn yr Undeb Credyd' roi cefndir am Undebau Credyd ac ysbrydoli pobl i gychwyn Undeb Credyd.

Bydd angen cael tîm o ddisgyblion i redeg y pwynt casglu. Bydd angen hyfforddiant arnyn nhw gan gynrychiolydd o'r Undeb Credyd. Gallen nhw ddod o Flwyddyn 8, 9 neu 10 yn dibynnu ar yr ysgol a gall fod angen rhoi 2 neu 3 sesiwn hyfforddi.

Dewisol – cynnal ymchwil marchnad i ganfod yr hoff steil ar gyfer edrychiad a naws y deunyddiau a'r amseroedd aros mwyaf poblogaidd etc.

Trefnu deunyddiau hyrwyddo a chynnal lansiad anffurfiol gyda grŵp o un flwyddyn arbennig. Gallai'r disgyblion roi cyflwyniad. Gallech ddechrau gyda'r grŵp sydd wedi dysgu am Undebau Credyd neu grŵp o flwyddyn iau. Defnyddiwch y cam hwn i werthuso'r system a gwneud newidiadau fel bod pethau'n mynd yn fwy esmwyth.

Lansio swyddogol – rhowch wahoddiad i bobl bwysig a'r cyfryngau lleol er mwyn cael digon o fomentwm.
Os ydych chi'n mynd ati i wneud pethau'n foesegol – cofiwch feddwl am ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo moesegol a chyfeillgar i'r amgylchedd.

Adolygu'r datblygiadau – oes angen newid unrhyw beth i ddenu mwy o aelodau? Gwnewch ymchwil marchnad a gofyn i'r aelodau pam wnaethon nhw ymuno – neu gofyn i'r farchnad darged beth fyddai'n gwneud iddyn nhw ymuno. Gall cynrychiolydd yr Undeb Credyd gymryd cam yn ôl wrth i'r pwynt casglu ddod yn hunangynhaliol.

Disgyblion yn hyfforddi grŵp o ddisgyblion blwyddyn arall er mwyn i'r pwynt casglu barhau.

Sut i sefydlu pwynt casglu Undeb Credyd yn eich ysgol

Astudiaeth Achos

Ysgol Dyffryn yng Nghastell Nedd Port Talbot oedd yr ysgol uwchradd gyntaf yng Nghymru i sefydlu pwynt casglu gyda help Undeb Credyd Castell Nedd Port Talbot. Dyma sut y llwyddon nhw i wneud hyn.

Mewn ymateb i ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod 'gwasanaeth Undeb Credyd ar gael i bob disgybl ysgol uwchradd yng Nghymru' penderfynodd Undeb Credyd Castell Nedd Port Talbot wneud rhywbeth am hyn.

Ar ôl cael cefnogaeth yr Awdurdod Addysg Lleol, aeth Brian Warlow, Gweithiwr Datblygu gyda'r Undeb Credyd, ati i drefnu cyfarfod gyda phrifathrawon lleol i weld a oedd gan unrhyw ysgolion ddiddordeb mewn cychwyn pwynt casglu.

O'r cyfarfod hwn, datblygodd perthynas rhwng yr Undeb Credyd ac Ysgol Dyffryn ym Margam, ger Port Talbot.

Trefnodd Karen Thomas, yr Athrawes Bagloriaeth Cymru, a'r cynrychiolydd o'r Undeb Credyd sesiwn wybodaeth yn yr ysgol a daeth gweithiwr o'r Undeb Credyd i'r ysgol i sarad â disgyblion Blwyddyn 10 am Undebau Credyd.

Dangosodd y disgyblion ddigon o ddiddordeb mewn sefydlu pwynt casglu ac felly cafodd 2/3 sesiwn hyfforddi eu cynnal er mwyn hyfforddi'r disgyblion ar sut i ddechrau rhedeg pwynt casglu.

Meddai Brian, "Mae'n hollbwysig ein bod ni'n annog pobl ifanc i gynilo. Fel hyn, byddwn ni'n torri'r tsiaen o genhedlaeth i genhedlaeth yn byw mewn dyled i fenthycwyr stepen drws a benthycwyr arian di-drwydded (loan sharks)."

Mae Ysgol Dyffryn yn teimlo bod y fenter hefyd wedi rhoi'r cyfle i ddisgyblion gael profiad gwerthfawr o gynllunio, cyfathrebu, gweithio ar y cyd, cyfrifeg a hyfforddi cyfoedion.

Ond beth yw barn y disgyblion? Yn ôl Rachel, un o'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y pwynt casglu: "Doedden ni ddim wedi arfer cynilo i ddechrau. Yna fe welson ni pa mor hawdd oedd cynilo ychydig bach ar y tro."

"Mae'n wych cael ein banc bach ni'n hunain yn lle gorfod gofyn i'n rhieni ni am arian o hyd. Drwy gymryd rhan yn yr Undeb Credyd a siarad â phobl newydd, mae fy hunanhyder wedi cael hwb mawr."

Nodweddion hollbwysig Pwynt Casglu Undeb Credyd Ysgol Dyffryn:
50 aelodau
1 athro i helpu i'w redeg
2 staff Undeb Credyd i helpu i hyfforddi'r disgyblion a sefydlu'r pwynt casglu

Agorodd ym mis Chwefror 2009

Am ragor o wybodaeth am yr ysgol, ebostiwch y Cydgysylltydd Bagloriaeth Cymru.
dyffryn@neath-porttalbot.gov.uk